

2009/10

Annual report

Adroddiad blynyddol



Supporting charities, volunteers and communities
Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau



Wales Council for Voluntary Action's mission is to make Wales a better place by championing volunteering, voluntary organisations, and community groups.

In so doing, it will help build a civil society in Wales that:

- Is inclusive and offers equality of opportunity.
- Strengthens voluntary and community action at the heart of civil society in Wales, that:
 - empowers people to participate and fosters community leadership
 - encourages and promotes the independence of voluntary action
 - celebrates and reflects linguistic and cultural diversity and choice
 - engages in genuine partnership with other sectors on a 'who does what best' basis.

Cenhadaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw gwneud Cymru'n lle gwell drwy hyrwyddo gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Drwy wneud hynny, bydd yn cynorthwyo i adeiladu cymdeithas sifil yng Nghymru a fydd:

- Yn gynhwysol ac yn cynnig cyfle cyfartal.
- Yn cryfhau gweithredu gwirfoddol a chymunedol sydd wrth galon cymdeithas sifil yng Nghymru, sydd:
 - yn grymuso pobl i gyfranogi ac yn meithrin arweiniad cymunedol
 - yn annog ac yn hybu annibyniaeth gweithredu gwirfoddol
 - yn dathlu ac yn adlewyrchu amrywiaeth a dewis ieithyddol a diwylliannol
 - yn ymrwmo i wir bartneriaeth gyda sectorau eraill ar sail 'pwy sy'n gwneud beth orau'.

WCVA Head Office
Baltic House
Mount Stuart Square
Cardiff
CF10 5FH
Tel 0800 2888 329
Fax 029 2043 1701
Minicom
029 2043 1702
help@wcva.org.uk

North Wales Office
Morfa Hall
Bath Street
Rhyl
LL18 3EB
Tel 0800 2888 329
Fax 01745 357541
Minicom
01745 357542
help@wcva.org.uk

Mid Wales Office
2 Science Park
Cefn Llan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AH
Tel 0800 2888 329
Fax 01970 631121
help@wcva.org.uk

WCVA Prif Swyddfa
Tŷ Baltig
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FH
Ffôn 0800 2888 329
Ffacs 029 2043 1701
Minicom
029 2043 1702
help@wcva.org.uk

Swyddfa Gogledd Cymru
Neuadd Morfa
Stryd y Baddon
Y Rhyl
LL18 3EB
Ffôn 0800 2888 329
Ffacs 01745 357541
Minicom
01745 357542
help@wcva.org.uk

Swyddfa'r Canolbarth
2 Parc Gwyddoniaeth
Cefn Llan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AH
Ffôn 0800 2888 329
Ffacs 01970 631121
help@wcva.org.uk

WCVA Helpdesk 0800 2888 329

Lein Gymorth WCVA 0800 2888 329

www.wcva.org.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL | INVESTORS
IN PEOPLE**



Contents

Cynnwys

Chair's report Adroddiad y Cadeirydd	2
Chief Executive's report Adroddiad y Prif Weithredwr	3
Services for the sector Gwasanaethau ar gyfer y sector	5
Promoting the sector's roles Hyrwyddo swyddogaethau'r sector	13
Achieve positive outcomes for the sector in major policy areas Sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y sector mewn meysydd polisi pwysig	17
Improve performance and ensure quality Gwella perfformiad a sicrhau ansawdd	23
Grants and funding Grantiau a chyllid	24
Plans for future periods Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	26
The trustees and charity advisers Ymddiriedolwyr a chynghorwyr elusen	27
Summarised financial statements Crynodeb o'n mantolenni ariannol	28
WCVA Members Aelodau WCVA	33



Celebrating
10 Years of
Youth Volunteering



Deddfu 10 Mlynedd a Chymuni
Pob Ifanc yn y Cymuned



Chair's report

Adroddiad y Cadeirydd



WCVA can look back on 2009/10 as a year of mixed fortunes. There was recovery and consolidation as the difficulties which bridged 2008 and 2009 were tackled. However, no sooner had things settled down when serious new challenges around public sector expenditure cuts faced the third sector as the financial year came to an end.

Despite the challenges looming for the coming year we can be thankful that WCVA and its member organisations in 2009/10 were steadfast in their determination to maintain the profile and importance of the third sector as servants of the wider public in hard times.

Once again our award schemes for volunteers and voluntary organisations demonstrated the high quality and added value that the sector brings to public life.

My report cannot pass without mentioning the retirement of Jan Bish as our Company Secretary and Chief Executive's PA after many years of distinguished service. I wish Jan well in her retirement and thank her for her faithful service which has contributed so much to making WCVA the valued organisation it is today.

Finally, a word of thanks to all our staff, the staff of our county voluntary councils, our member organisations and individual volunteers who contribute so much, for enhancing the quality of life in communities throughout Wales.

Win Griffiths
Chair

Gall WCVA edrych yn ôl ar 2009/10 fel blwyddyn o brofiadau cymysg. Gwelsom adferiad ac atgyfnerthu wrth i ni fynd i'r afael â'r anawsterau a gychwynnodd yn 2008 ac a barhaodd yn 2009. Ond, cyn gynted ag yr oedd pethau wedi dechrau tawelu, roedd y trydydd sector yn wynebu heriau newydd difrifol yn sgil toriadau mewn gwariant ar y sector cyhoeddus wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben.

Er gwaethaf yr heriau sydd ar y gorwel ar gyfer y flwyddyn i ddod, gallwn ddiolch fod WCVA a'i aelod fudiadau yn 2009/10 yn gadarn yn eu hymroddiad i gynnal proffil a phwysigrwydd y trydydd sector fel gwasanaethwyr y cyhoedd mewn cyfnod o galedi.

Unwaith eto, dangosodd ein cynlluniau gwobrwyo ar gyfer gwirfoddolwyr a mudiadau gwirfoddol y gwerth ychwanegol a'r safon uchel y mae'r sector yn ei gynnig i fywyd cyhoeddus.

Ni allaf adael i f'adroddiad fynd heibio heb sôn am ymddeoliad Jan Bish, Ysgrifennydd ein Cwmni a Chynorthwy-ydd Personol y Prif Weithredwr, ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth clodwiw. Dymunaf y gorau iddi yn ei hymddeoliad a diolchaf iddi am ei gwasanaeth ffyddlon sydd wedi cyfrannu gymaint at wneud WCVA yn fudiad sy'n cael ei werthfawrogi gymaint heddiw.

Yn olaf, gair o ddiolch i'n holl staff, staff ein cynghorau gwirfoddol sirol, ein haelod fudiadau a gwirfoddolwyr unigol sy'n cyfrannu gymaint at gyfoethogi ansawdd bywyd ein cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Win Griffiths
Cadeirydd

Chief Executive's report

Adroddiad y Prif Weithredwr



The year covered by this report 2009/10 marks the end of a remarkable decade of achievement – progress for WCVA and the sector in Wales.

During this decade the sector has become a major third force alongside the state and business in Wales in shaping the policies and delivering the services which have made devolution a success.

The sector has moved beyond being the 'icing on the cake' to being an increasingly essential component in achieving community empowerment, cohesion and well being.

This enhanced role has seen a growth in income and expenditure for many organisations and to enhanced support from statutory authorities.

Although only 2-3% of Assembly and local government budgets are spent on the sector, this has become an increasingly important part of the sector income.

This growth in public expenditure is now likely to cease and many organisations will face challenging times over the next few years, but the sector's very strengths of resilience, innovation, self reliance, altruism and activism, will, as in the past, help us survive and flourish as the times get tough.

WCVA was born in the hard times of the Great Depression, and its role in supporting the third sector in every way it can, remains as vital today as it did in 1934.

Graham Benfield, OBE
Chief Executive

Mae'r flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, sef 2009/10, yn nodi diwedd degawd rhyfeddol o gyflawniadau - cynnydd o safbwynt WCVA a'r sector yng Nghymru.

Yn ystod y degawd hwn mae'r sector wedi tyfu i fod yn drydydd grym pwysig ochr yn ochr â'r wladwriaeth a busnes yng Nghymru o ran siapio polisiau a darparu'r gwasanaethau sydd wedi gwneud datganoli yn llwyddiant.

Nid yr 'eisin ar y gacen' yw'r sector erbyn hyn ond yn hytrach cynhwysyn cynyddol hanfodol o ran grymuso cymunedau a sicrhau lles a chydlyniant y cymunedau hynny.

Gwelwyd twf yn incwm a gwariant nifer o fudiadau yn sgil y rôl estynedig hon yn ogystal â mwy o gefnogaeth gan awdurdodau statudol.

Er mai dim ond 2 - 3% o gyllidebau'r Cynulliad a llywodraeth leol sy'n cael ei wario ar y sector, mae hwn wedi tyfu i fod yn rhan gynyddol bwysig o incwm y sector.

Mae'r twf hwn mewn gwariant cyhoeddus yn debygol o ddod i ben yn awr a bydd llawer o fudiadau yn wynebu cyfnod anodd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond bydd cryfderau'r sector, sef gwytnwch, arloesedd, hunandibyniaeth, anhunanoldeb a pharodrwydd i weithredu, yn ein helpu i oroesi a ffynnu yn wyneb y caledi hwn, fel y gwnaethant yn y gorffennol.

Sefydlwyd WCVA yng nghyfnod anodd y Dirwasgiad Mawr ac mae ei swyddogaeth yn cefnogi'r trydydd sector ym mhob ffordd y gall mor hanfodol heddiw ag yr oedd yn 1934.

Graham Benfield, OBE
Prif Weithredwr

Introduction Cyflwyniad



This report outlines WCVA's key activities and achievements for the year, against its key objectives, which were to:

- Provide services
- Develop the sector's different roles
- Achieve positive outcomes for the sector
- Improve its performance and to ensure quality in all aspects of the organisation

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu prif weithgareddau a chyflawniadau WCVA am y flwyddyn, o'u cymharu â'i amcanion allweddol, sef:

- Darparu gwasanaethau
- Datblygu gwahanol rolau'r sector
- Sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y sector
- Gwella ei berfformiad a sicrhau safon ym mhob agwedd ar y mudiad

Achievements and performance

During this year WCVA has continued to implement the Partnership Agreement, through which the Welsh Assembly Government funds the support services for the sector at national and local level. WCVA has worked with county voluntary councils and volunteer centres to plan complementary services, underpinned by comprehensive training and information frameworks, identifying who does what to meet the needs of the sector at national, regional and local levels.

WCVA assesses its effectiveness by monitoring take-up of its services, levels of satisfaction with its services, the extent of its engagement with the sector, achievement of target dates, extent of the sector's engagement with public bodies, and the extent to which public policy takes account of the sector's interests. A summary of achievements for 2009/10 is provided on the following pages.



Cyflawniadau a pherfformiad

Yn ystod y flwyddyn hon, mae WCVA wedi parhau i weithredu'r Cytundeb Partneriaeth, sef y Cytundeb y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddefnyddio i gyllido'r gwasanaethau cefnogi ar gyfer y sector ar lefel genedlaethol a lleol. Mae WCVA wedi gweithio gyda chynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli i gynllunio gwasanaethau ategol, a'r rheini'n seiliedig ar fframweithiau gwybodaeth a hyfforddiant cynhwysfawr, sy'n nodi pwy sy'n gwneud beth i ddiwallu anghenion y sector yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Mae WCVA yn asesu ei effeithiolrwydd drwy fonitro'r canlynol: y niferoedd sy'n manteisio ar ei wasanaethau, pa mor fodlon yw pobl gyda'i wasanaethau, i ba raddau y mae'n ymgysylltu â'r sector, ei lwyddiant o ran cwblhau gwaith erbyn dyddiadau targed, i ba raddau y mae'r sector yn ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, ac i ba raddau y mae polisiâu cyhoeddus yn rhoi sylw i fuddiannau'r sector. Ceir crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd yn 2009/10 ar y tudalennau sy'n dilyn.

1 Services for the sector

Gwasanaethau ar gyfer y sector

General information, guidance and support

The provision of information and guidance and support to third sector organisations remains at the forefront of our services by:

- Maintaining an up-to-date website attracting over 700,000 visitors, and some 180,000 items downloaded.
- Responding to around 8,600 Helpdesk enquiries.
- Working with CVCs and volunteer centres, ensuring over 157 information sheets are available to the sector, with over 415,000 of these downloaded from WCVA, CVC and volunteer centre websites.



- Publishing 21 issues of our magazine *Network Wales*.
- Publishing 24 members' e-briefings.
- Publishing 9 national supplements for CVC newsletters.
- Organising a

programme of 8 conferences on subjects of major interest to the sector, attracting over 880 participants.

- Maintaining the national database of voluntary and community organisations, holding details of over 29,913 organisations based in or working in Wales.
- Providing a third sector recruitment service.
- Providing a third sector mailing service with over 27,000 items sent.
- Providing a wide range of members' benefits, including discounted computer software, insurance, discounted employment and health and safety services, specialist telecommunications for the sector, payroll services, discounted translation service and corporate promotional products.

Gwybodaeth gyffredinol, cyfarwyddyd a chefnogaeth

Mae darparu gwybodaeth, canllawiau a chymorth i'r trydydd sector yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ein gwasanaeth drwy:

- Cynnal gwefan sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ac sy'n denu dros 700,000 o ymwelwyr; llwythwyd oddeutu 180,000 o eitemau i lawr oddi arni.
- Ymateb i oddeutu 8,600 o ymholiadau i'r Lein Gymorth.
- Gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) a chanolfannau gwirfoddoli, gan sicrhau bod dros 157 o daflenni gwybodaeth ar gael i'r sector, gyda dros 415,000 o'r rhain yn cael eu llwytho i lawr oddi ar wefannau WCVA, CGS a chanolfannau gwirfoddoli.
- Cyhoeddi 21 rhifyn o'n cylchgrawn *Rhwydwaith Cymru*.
- Cyhoeddi 24 o e-hysbysiadau i aelodau.
- Cyhoeddi 9 atodiad cenedlaethol i gylchlythyrau CGS.
- Trefnu rhaglen o 8 cynhadledd ar destunau sydd o ddiddordeb gwirioneddol i'r sector, gan ddenu dros 880 o gyfranogwyr.
- Cynnal y gronfa ddata genedlaethol o fudiadau gwirfoddol a chymunedol, gan gadw manylion dros 29,913 o fudiadau sydd wedi'u lleoli neu sy'n gweithio yng Nghymru.
- Darparu gwasanaeth recriwtio i'r trydydd sector.
- Darparu gwasanaeth postio ar ran y trydydd sector gan anfon dros 27,000 o eitemau.
- Darparu ystod eang o fanteision i aelodau, gan gynnwys meddalwedd cyfrifiaduron am bris gostyngol, yswiriant, gwasanaethau iechyd a diogelwch a chyflogaeth am bris gostyngol, gwasanaeth telegyfathrebu arbenigol i'r sector, gwasanaethau cyflogres, gwasanaeth cyfieithu am bris gostyngol a chynhyrchion hyrwyddo corfforaethol.

The WCVA Helpdesk could not have been more accommodating and effective in helping us to move from four memberships to a single membership under a different name, while maintaining information flow to our key personnel. We value the access to advice and guidance we enjoy through our membership of WCVA and the quality of the information we receive through WCVA publications and events. Thank you for your continued help.'

Roger Gant,
General Manager
Crossroads Mid
and West Wales

Ni allai staff Lein Gymorth WCVA fod wedi bod yn fwy effeithiol a pharod eu cymwynas wrth ein helpu i symud o bedwar corff aelodaeth i un dan enw gwahanol, a chynnal llif gwybodaeth i'n staff allweddol ar yr un pryd.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad y gallwn ei gael drwy ein haelodaeth o WCVA a safon yr wybodaeth rydym yn ei chael drwy gyhoeddiadau a digwyddiadau WCVA. Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.'

Roger Gant,
Rheolwr Cyffredinol
Crossroads Canolbarth
a Gorllewin Cymru





In January, our third sector recruitment service was re-branded as recruit3, with positions advertised on www.recruit3.org.uk, Network Jobs and Big Issue Cymru. During 2009/2010, recruit3 has advertised over 500 paid positions in the third sector and 39 trustee positions.

Ym mis Ionawr, newidiwyd enw ein gwasanaeth recriwtio ar gyfer y trydydd sector i recriwt3, a hysbysebwyd swyddi ar www.recriwt3.org.uk, ac yn y cylchgronnau Network Jobs a Big Issue Cymru. Yn ystod 2009/2010, mae recriwt3 wedi hysbysebu dros 500 o swyddi cyflogedig yn y trydydd sector a 39 o swyddi ymddiriedolwr.



Training services

WCVA and the infrastructure are major providers of training courses for the third sector in Wales by:

- Working with CVCs, running a core training programme through the delivery of 300 courses in 10 key subject areas.
- Delivering 11 accredited and endorsed courses, working closely with the Institute of Leadership and Management (ILM) and Agored Cymru.
- Delivering a range of courses to support continuous professional development (CPD) for those in the third sector workforce in Wales, with the focus on developing management and leadership skills.
- Providing training and support to organisations involved in delivering European funded work, through courses in project management, how to tender, risk management and quality assurance.



'A very useful and interesting six-day course. As I am developing a project at work the content was extremely useful and relevant to my needs.' Vera Davey, Holywell Communities First, Flintshire

'Cwrs chwe-diwrnod diddorol a defnyddiol iawn. Gan fy mod i yn datblygu prosiect yn y gwaith, roedd y cynnwys yn ddefnyddiol iawn ac yn berthnasol i'm hangenion i.' Vera Davey, Cymunedau yn Gyntaf Treffynnon, Sir y Fflint

Volunteering

WCVA has maintained its work as the strategic lead body for volunteering in Wales by:

- Supporting the recruitment and training of 2,365 newly recruited volunteers from underrepresented groups throughout Wales through the Volunteering in Wales Fund, contributing nearly 250,000 hours for the benefit of 122,700 people in their communities.
- Retaining the Volunteering Wales website position as the top volunteering website on Google when searching for 'volunteer in Wales', advertising over 8,200 volunteering opportunities and attracting 656,000 visitors.
- Promoting good practice in the management of volunteers through the Investing in Volunteers programme.
- Organising a national volunteering awards scheme.

Gwasanaethau hyfforddi

Mae WCVA a'r isadeiledd ymhlith rhai o brif ddarparwyr cysiau hyfforddiant ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru drwy:

- Gweithio gyda CGS i redeg rhaglen hyfforddiant craidd drwy ddarparu 300 o gyrsiau mewn 10 maes allweddol.
- Darparu 11 cwrs achrededig a chymeradwy gan gydweithio'n agos â'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac Agored Cymru.
- Darparu nifer o gyrsiau oedd yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer unigolion yng ngweithlu'r trydydd sector yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rheoli ac arwain.
- Rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i fudiadau sy'n ymwneud â chyflawni gwaith a ariennir gan Ewrop ar ffurf cysiau mewn rheoli prosiectau, sut i dendro, rheoli risg a sicrhau ansawdd.

Gwirfoddoli

Mae WCVA wedi parhau i weithio fel y prif gorff strategol dros wirfoddoli yng Nghymru drwy:

- Cefnogi recriwtio a hyfforddi 2,365 o wirfoddolwyr newydd o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ar hyd a lled Cymru drwy'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, gan gyfrannu bron i 250,000 awr er budd 122,700 o bobl yn eu cymunedau.
- Sicrhau bod gwefan Gwirfoddoli Cymru yn aros ar y brig fel y prif wefan wirfoddoli sy'n ymddangos ar Google pan fydd rhywun yn chwilio am 'gwirfoddoli yng Nghymru', gan hysbysebu dros 8,200 o gyfleoedd gwirfoddoli a denu dros 656,000 o ymwelwyr.
- Hybu arferion da yng nghyswllt rheoli gwirfoddolwyr drwy'r rhaglen Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.
- Trefnu cynllun gwobrau gwirfoddoli cenedlaethol.



South Wales charity gets boost from Volunteering in Wales Fund

A charity that provides training and employment opportunities to people with learning difficulties has secured a grant through WCVA's Volunteering in Wales Fund to recruit and train new volunteers.

Vision 21 offers vocational training and routes to employment through its social enterprises in retail, catering and horticulture across Cardiff, Newport and the Vale of Glamorgan.

Funding of almost £10,000 is allowing Vision 21 to recruit and train over 30 new volunteers who will support and mentor over 300 people who are receiving vocational training and employment opportunities at the charity's 16 enterprises.

Jamie Harris, Volunteer Co-ordinator at Vision 21 said: 'Volunteers are vital because they bring new skills and ideas to our projects as well as helping to deliver them.'

Elusen yn Ne Cymru yn cael hwb gan Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru

Mae elusen sy'n darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ag anawsterau dysgu wedi sicrhau grant drwy Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru WCVA er mwyn recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd.

Mae Vision 21 (Cyfle Cymru) yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol a llwybrau at gyflogaeth drwy gyfrwng ei mentrau cymdeithasol ym maes adwerthu, arlwyio a garddwriaeth ar draws Caerdydd, Casnewydd a Bro Morgannwg.

Diolch i gyllid o bron i £10,000, gall Vision 21 recriwtio a hyfforddi dros 30 o wirfoddolwyr newydd a fydd yn cefnogi ac yn mentora dros 300 o bobl sy'n cael hyfforddiant galwedigaethol a chyfleoedd cyflogaeth yn 16 menter yr elusen.

Dywedodd Jamie Harris, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Vision 21: 'Mae gwirfoddolwyr yn hollbwysig oherwydd maent yn dod â sgiliau a syniadau newydd i'n prosiectau, yn ogystal â helpu i'w cyflwyno.'

The Volunteering in Wales Fund helps to recruit and train over 2,000 new volunteers each year that provide around 200,000 hours of voluntary work for charities across Wales. This would otherwise cost £3m.

The Fund is widening access to volunteering opportunities for under-represented groups, while ensuring that charities and voluntary organisations can recruit and train new volunteers to help deliver valuable services in communities across Wales.

Mae'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru yn helpu i recriwtio a hyfforddi dros 2,000 o wirfoddolwyr newydd bob blwyddyn sy'n cyflawni tua 200,000 awr o waith gwirfoddol ar ran elusennau ledled Cymru. Fel arall, byddai hyn yn costio £3m.

Mae'r Gronfa'n ehangu mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, ac yn sicrhau bod elusennau a mudiadau gwirfoddol yn gallu recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd i helpu gyda'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i gymunedau ledled Cymru ar yr un pryd.



1

1 Dr Brian Gibbons AM at the launch of GwirVol. GwirVol will be led by the young people themselves through GwirForce - a panel of young people who sit on the partnership - and supported in their work by Youth Volunteer Advisors in each of the 22 Welsh local authority areas.

The GwirVol initiative will also give out £500,000 in grants including £110,000 through local grant panels comprising young people to encourage youth led volunteering projects in their own areas.

1 Dr Brian Gibbons AC yn lansiad GwirVol. Caiff GwirVol ei arwain gan y bobl ifanc eu hunain drwy GwirForce – sef panel o bobl ifanc sy'n eistedd ar y bartneriaeth – ac fe gânt eu cefnogi yn eu gwaith gan Gyngorwyr Gwirfoddolwyr Ifanc ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Bydd y cynllun GwirVol hefyd yn dosbarthu £500,000 mewn grantiau, yn cynnwys £110,000 drwy baneli grantiau lleol o bobl ifanc, er mwyn annog prosiectau gwirfoddoli a arweinir gan bobl ifanc yn eu hardaloedd eu hunain.



2

2 WCVA Volunteer of the Year award winner in the 'green' category, Linda Ware's concern for the environment led to her 'changing the mindset' of the Neath community in which she lives, turning it into a litter-free one.

She was the driving force behind a local clean-up operation, mobilising residents to reduce the number of plastic carrier bags festooning the hedges and footpaths.

Collecting large quantities of old sheets, duvet covers and curtains, Linda appealed for sewing machines and started a recycling operation to turn the fabric into reusable shopping bags.

2 Mae pryder Linda Ware, cyn enillydd gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn WCVA, ynglŷn â'r amgylchedd wedi ysgogi'r gymuned yng Nghastell Nedd lle mae hi'n byw i 'newid ei hagwedd yn llwyr', a throï'n gymuned ddi-sbwriel.

Hi oedd y sbardun y tu ôl i gynllun clirio sbwriel lleol, gan gymell y trigolion i glirio'r bagiau plastig lu oedd yn britho cloddiau a llwybrau troed yr ardal.

Bu hefyd yn casglu tomenni o hen ddillad gwely a llenni, ac ar ôl gwneud apêl am beiriannau gwno, dechreuodd fenter ailgylchu i droi'r defnydd yn fagiau siopa y gellir eu defnyddio dro ar ôl tro.

- Providing access to criminal records checks for volunteers and staff of voluntary organisations, handling nearly 26,000 disclosure requests and keeping voluntary organisations up to date on changes to vetting arrangements connected with the Independent Safeguarding Authority and Vetting Barring Scheme.
- Organising the annual Wales volunteering conference.
- Launching the GwirVol website – www.gwirvol.org.
- Funding 65 projects through Millennium Volunteers and the GwirVol initiatives.
- Attracting almost 39,000 visitors to the working with volunteers website.
- Maintaining and developing, with volunteer centres, a suite of volunteering information sheets on working with volunteers.
- Through the Wales: The Active Community grant scheme, supporting the recruitment of an estimated 27,300 new volunteers over the last three years of the grant scheme.
- Darparu mynediad at archwiliadau cofnodion troseddol ar gyfer gwirfoddolwyr a staff mewn mudiadau gwirfoddol, gan ymdrin â bron i 26,000 o geisiadau am archwiliadau datgelu a sicrhau bod mudiadau gwirfoddol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i drefniadau archwilio cefndir yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd.
- Trefnu cynhadledd wirfoddoli flynyddol Cymru.
- Lansio gwefan GwirVol sef www.gwirvol.org.
- Ariannu 65 o brosiectau drwy'r cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm a mentrau GwirVol.
- Denu bron i 39,000 o ymwelwyr i wefan 'gweithio gyda gwirfoddolwyr'.
- Ar y cyd â chanolfannau gwirfoddoli, datblygu a chynnal casgliad o dafenni gwybodaeth am weithio gyda gwirfoddolwyr.
- Drwy'r cynllun grantiau Cymru: Cymdeithas Fyw, cefnogi recriwtio amcangyfrif o 27,300 gwirfoddolwr newydd dros dair blynedd ddiwethaf y cynllun grantiau.

Trustees and governance

WCVA has continued to offer services to support trustees, including:

- Responding to nearly 200 trustee enquiries.
- Developing the trustee website, attracting over 43,000 visits.
- Organising a charity law conference and other seminars, attracting nearly 200 participants.
- Providing a monthly e-bulletin for individual trustees, with over 600 recipients.

Ymddiriedolwyr a llywodraethu

Mae WCVA wedi parhau i gynnig gwasanaethau i gefnogi ymddiriedolwyr, gan gynnwys:

- Ymateb i bron i 200 o ymholiadau gan ymddiriedolwyr.
- Datblygu'r wefan ymddiriedolwyr, gan ddenu dros 43,000 o ymwelwyr, a dros 42,000 yn llwytho gwybodaeth oddi arni.
- Trefnu cynhadledd ar y gyfraith elusennau yn ogystal â seminarau eraill, gan ddenu bron i 200 o gyfranogwyr.
- Darparu e-fwletin misol ar gyfer ymddiriedolwyr unigol, gyda thros 600 yn ei dderbyn.



Frank Learner with WCVA Chair Win Griffiths and Mai Davies, guest speaker at the Wales Volunteer of the Year Award ceremony, supported by CCLA Management Ltd.

Frank Learner gyda Chadeirydd WCVA Win Griffiths a Mai Davies, y siaradwraig wadd yn seremoni wobrwyo Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn, a gefnogir gan CCLA Management Ltd.

Community projects benefit from Volunteer of the Year winner's expertise

As Treasurer Trustee with the Community Foundation in Wales, Frank Learner has for the past year stepped up his involvement with the Foundation following the sudden departure of the finance manager.

'Frank has been able to provide excellent tutoring in the fundamentals of book keeping and financial administration to enable the new staff in post to smoothly take over the daily tasks of a small charity with a large responsibility for grant management across Wales,' said Julie Ashton-Davies, Philanthropy Manager with the Foundation.

Frank's expertise and commitment to keeping abreast of development in the fields of finance and governance helped the Foundation successfully deliver on its campaign to effect the transfer of charitable assets from local authorities.

Proseictau cymunedol yn elwa ar arbenigedd ariannol enillydd Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Fel Ymddiriedolwr Drysorydd y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, mae Frank Learner wedi cynyddu ei gysylltiad â'r Sefydliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn ymadawiad sydyn y rheolwr cyllid.

'Mae Frank wedi bod yn dysgu'r tasgau hanfodol o gyfrifyddu a gweinyddu ariannol i alluogi staff sy'n newydd i'w swydd ymgymryd â'r tasgau beunyddiol o redeg elusen fach gyda chyfrifoldeb mawr dros reoli grantiau ledled Cymru,' yn ôl Julie Ashton-Davies, Rheolwr Dyngarwch gyda'r Sefydliad.

Mae arbenigedd ac ymroddiad Frank i gyfarwyddo'i hun â'r datblygiadau diweddaraf yn y meysydd cyllid a llywodraethu wedi galluogi'r Sefydliad i lwyddo yn ei ymgyrch i weld asedau elusennol yn cael eu trosglwyddo oddi wrth awdurdodau lleol.



3to3.org.uk online marketplace launched

Gofal Cymru was one of the first sellers on 3to3. It runs a 'social business' named Not Just Nuts, which sells all manner of food, drinks and gifts.

Jo Davis of Gofal Cymru said: 'Not Just Nuts supports volunteers who suffer with mental ill health and helps them back into the workplace through Gofal's employment support programme. With the support of our customers, including 3to3, we can continue to offer these rewarding and successful placement opportunities.'

3to3 has over 75 registered sellers and lists over 150 items and services.


Lansio marchnadle arlein 3i3.org.uk

Roedd Gofal Cymru yn un o'r gwerthwyr cyntaf ar 3i3. Mae'n rhedeg 'busnes cymdeithasol' o'r enw Not Just Nuts sy'n gwerthu pob math o fwyd, diod ac anrhegion.

Meddai Jo Davis, Gofal Cymru: 'Mae Not Just Nuts yn cefnogi gwirfoddolwyr sy'n dioddef salwch meddwl ac yn eu helpu'n ôl i'r gweithle drwy raglen cefnogi cyflogaeth Gofal. Gyda chefnogaeth ein cwsmeriaid, gan gynnwys 3to3, gallwn barhau i'w gynnig y cyfleoedd hyn am leoliad llwyddiannus sy'n rhoi boddhad mawr.'

Mae gan 3i3 dros 75 o werthwyr ac yn rhestru dros 150 o eitemau a gwasanaethau.

Giving Wales aims to increase voluntary income to the third sector in Wales through the promotion of tax-effective giving including Gift Aid, payroll, legacy and share giving. Giving Wales offers practical help and support to third sector organisations in Wales through the provision of training, information and advice.



Nod Cymru'n Rhoi yw cynyddu'r incwm a gaiff y trydydd sector o wirfoddoli yng Nghymru drwy hyrwyddo dulliau rhoi treth-ffeithiol megis Cymorth Rhodd, rhoi drwy'r gyflogres, cymynroddion a rhoi drwy gyfranddaliadau. Mae Cymru'n Rhoi yn cynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru drwy ddarparu hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor.

Funding

The funding environment continues to raise new challenges for the third sector in Wales, and WCVA has helped the sector, by:

- Responding to over 2,700 helpline funding enquiries, and providing more detailed advice to over 290 organisations on European and other funding.
- Developing the Sustainable Funding Cymru website – www.sustainablefundingcymru.org.uk – to provide a one-stop funding portal for the sector in Wales on funding and finance options, attracting over 52,000 visitors, and over 23,000 document downloads.
- Developing, with CVCs, a suite of 40 funding information sheets downloadable across the infrastructure.
- Providing a sustainable funding training programme to over 650 participants.
- Providing advice on European Structural Funds through WCVA's third sector Spatial European Team (3-SET).
- Organising the Wales Third Sector Funding Conference, attracting 260 delegates.
- Providing a monthly funding e-bulletin, Funding news, to 1,800 recipients per month.
- Providing a tax effective giving advice service.
- Developing a new trading website for the third sector – www.3to3.org.uk.

Cyllid

Mae'r amgylchedd cyllido'n dal i godi sialensiau newydd ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Mae WCVA wedi helpu'r sector drwy:

- Ymateb i dros 2,700 o ymholiadau am gyllid drwy'r lein gymorth, a darparu cyngor llawnach i dros 290 o fudiadau ynghylch cyllid Ewropeaidd a mathau eraill o gyllid.
- Datblygu gwefan Cyllid Cynaliadwy Cymru – www.sustainablefundingcymru.org.uk – er mwyn darparu porth cyllido siop un-stop ar gyfer y sector yng Nghymru sy'n cynnwys gwybodaeth am opsiynau cyllido a chyllid, gan ddenu dros 52,000 o ymwelwyr, a chafodd dros 23,000 o ddogfennau eu llwytho i lawr oddi arni.
- Ar y cyd â CGS, datblygu casgliad o 40 o dafenni gwybodaeth i'w llwytho oddi ar y we ar draws y seilwaith.
- Darparu rhaglen hyfforddiant ar gyllid cynaliadwy i dros 650 o gyfranogion.
- Darparu cyngor ar y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd drwy Dîm Ewropeaidd Gofodol WCVA ar gyfer y Trydydd Sector (3-SET).
- Trefnu Cynhadledd Cyllido'r Trydydd Sector yng Nghymru, gan ddenu 260 o gynadleddwyr.
- Darparu e-fwletin misol ar gyllid, Newyddion nawdd, i dros 1,800 o dderbynwyr y mis.
- Darparu gwasanaeth cynghori ynghylch rhoi yn dreth-ffeithiol.
- Datblygu gwefan fasnachu newydd ar gyfer y trydydd sector - www.3i3.org.uk.





3-SET helps the sector access European funds

Hundreds of third sector organisations across Wales have benefited from the services provided by 3-SET, WCVA's third sector European team.

Over 150 individuals from third sector organisations have been through 'How to tender' training and a further 100 have gone on tendering masterclasses.

Roger Edwards, European Programme Manager at Innovate Trust, has been on 3-SET training and has since been successful in tendering for a £25,000 contract under the ESF-funded Engagement Gateway project.

Roger said: 'Attendance on the training course helped me gain an insight into the world of procurement procedure from both sides of the fence. It has taught me the importance of following the correct procedures and processes that are especially important with European Structural Funds.'

3-SET yn helpu'r sector i gael gafael ar arian Ewropeaidd

Mae cannoedd o fudiadau yn y trydydd sector ledled Cymru wedi elwa o'r gwasanaethau a ddarperir gan 3-SET, tîm Ewropeaidd WCVA ar gyfer y trydydd sector.

Mae dros 150 o unigolion o fudiadau'r trydydd sector wedi cael hyfforddiant 'Sut i dendro' ac mae 100 arall wedi mynychu dosbarthiadau meistr ar dendro.

Mae Roger Edwards, Rheolwr Rhaglenni Ewropeaidd Ymddiriedolaeth Innovate, wedi dilyn hyfforddiant 3-SET ac ers hynny wedi llwyddo wrth dendro am gontract £25,000 dan y prosiect Porth Ymgysylltu, a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Meddai Roger: 'Drwy fynychu'r cwrs hyfforddiant, cefais gipolwg ar y drefn gaffael o'r ddwy ochr. Mae wedi fy nysgu pa mor bwysig yw dilyn y drefn a'r prosesau cywir sy'n arbennig o bwysig yng nghyswllt y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.'

Members of the European Economic and Social Committee meeting WCVA staff and Vice President Tom Jones OBE during a visit to Wales in November 2009 organised by 3-SET to hear about best practice within European Structural Funds

Aelodau o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop yn cyfarfod â staff WCVA a Tom Jones OBE, Dirprwy Lywydd WCVA, yn ystod ymweliad â Chymru ym mis Tachwedd 2009 a oedd wedi'i drefnu gan 3-SET, er mwyn clywed am arferion gorau o fewn Cronfeydd Strwythurol Ewrop.

WCVA's *Statistical Resource 2011* shows how the third sector in Wales has grown in the last 15 years. It now comprises:

- At least 30,000 organisations/local groups
- 410,000 people who volunteer with an organisation
- 230,000 governance posts
- 51,000 paid posts
- An estimated income of £1.6 billion

Mae *Adnodd ystadegol 2011 WCVA* yn dangos sut mae'r trydydd sector yng Nghymru wedi tyfu yn y 15 mlynedd diwethaf. Nawr y mae'n cynnwys:

- O leiaf 30,000 mudiad/grwp lleol
- 410,000 o bobl sy'n gwirfoddoli gyda mudiad
- 230,000 o swyddi llywodraethu gwirfoddol
- 51,000 o swyddi cyflogedig
- Amcangyfrif incwm o £1.6 biliwn

Research

WCVA has carried out research into different aspects of voluntary action in Wales including:

- Impact of volunteering in a hospital setting.
- An assessment of the value of voluntary sector hospital to home services in reducing delayed transfers of care and unnecessary admissions to hospital.
- A programme to monitor the effects of the recession has been continued with three surveys carried out in 2009/10.
- A successful research conference in October, where the impact of the first 10 years of devolution on the third sector in Wales was discussed.
- A research conference in collaboration with sister organisations in England, Scotland and Northern Ireland entitled 'Volunteering Counts'.
- In partnership with Swansea University, enabling over 100 patients, service users and carers to be involved in formulating, managing and disseminating health and social care research in Wales.
- An almanac of the third sector in Wales, *Third sector statistical resource 2011*. This contains information about sources of funding for the sector and illustrates the amounts the sector receives from statutory sources.


Ymchwil

Mae WCVA wedi cynnal ymchwil i wahanol agweddau ar weithredu gwirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Effaith gwirfoddoli mewn ysbytai.
- Asesiad o werth gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref y sector gwirfoddol o ran lleihau oedi cyn trosglwyddo gofal a derbyniadau diangen i'r ysbyty.
- Parhawyd â rhaglen i fonitro effeithiau'r dirwasgiad a chynhaliwyd tri arolwg yn 2009/10.
- Cynhadledd ymchwil lwyddiannus ym mis Hydref, lle y trafodwyd effaith 10 mlynedd gyntaf datganol ar y trydydd sector yng Nghymru.
- Cynhadledd ymchwil mewn cydweithrediad â chwaer fudiadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon o'r enw 'Mae Gwirfoddoli'n Cyfrif'.
- Mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, galluogi dros 100 o gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, i fod yn rhan o'r gwaith o lunio, rheoli a lledaenu ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Almanac o'r trydydd sector yng Nghymru, *Adnodd ystadegol y trydydd sector 2011*. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am ffynonellau cyllid i'r sector ac yn dangos yr hyn y mae'r sector yn ei dderbyn o ffynonellau statudol.




Sources of funding 2008-09
Ffynonellau cyllid 2008-09




Proportion of funding from Welsh Assembly Government, unitary authorities and local health boards which is spent within the third sector


Cyfran o gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau unedol a byrddau iechyd lleol a wariwyd tu fewn i'r trydydd sector



Total programme and administration expenditure 2008-09
Cyfanswm gwariant rhaglen a gweinyddiaeth 2008-09
£14.3 billion | biliwn



Total revenue expenditure 2005-06
Cyfanswm gwariant reffiniw 2005-06
£5.2 billion | biliwn



Total expenditure 2006-07
Cyfanswm gwariant 2006-07
£4.0 billion | biliwn

2 Promoting the sector's roles

Hyrwyddo swyddogaethau'r sector

WCVA has continued to support the sector to develop its different distinctive roles and contribution to major public policy initiatives.

Policy consultation and representation

- Maintaining up-to-date details of current policy issues and consultations at Wales, UK and European levels on WCVA's national website, attracting nearly 58,000 visitors to the Policy section who downloaded over 1,700 policy documents.
- Organising 16 regional policy events and other policy meetings, attracting nearly 1,200 participants, to discuss policy issues of interest to the sector.
- Publicising over 300 policy consultations through the weekly consultation bulletin.
- Preparing 22 responses highlighting third sector interest and concerns.

Participation

- Expanding Participation Cymru, the cross-sector partnership hosted by WCVA and established to promote good practice in participation and citizen engagement.
- Publishing 6 citizen engagement newsletters and creating a new dedicated Participation Cymru website www.participationcymru.org.uk.
- Organising 23 training courses to develop skills in citizen engagement.
- Involving service users and carers in health and social care research through the Involving People project.
- Organising the first Wales substance misuse service user conference, attracting 180 participants.

Mae WCVA wedi parhau i gynorthwyo'r sector i ddatblygu ei wahanol swyddogaethau penodol a'i gyfraniad at fentrau polisi cyhoeddus pwysig.

Ymgynghori ar bolisiau a chynrychiolaeth

- Cadw'r manylion diweddaraf am faterion polisi ac ymgynghoriadau cyfredol yng Nghymru, y DU ac Ewrop, ar wefan genedlaethol WCVA, gan ddenu bron i 58,000 o ymwelwyr i'r adran Polisi sydd wedi llwytho dros 1,700 o ddogfennau polisi oddi ar y we.
- Trefnu 16 o ddigwyddiadau'n ymwneud â pholisi rhanbarthol a chyfarfodydd polisi eraill, gan ddenu bron i 1,200 o gyfranogwyr, i drafod materion yn ymwneud â pholisiau sydd o ddiddordeb i'r sector.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i dros 300 o ymgynghoriadau ar bolisiau drwy'r bwletin ymgynghori wythnosol.
- Paratoi 22 o ymatebion a oedd yn rhoi sylw i fuddiannau a phryderon y trydydd sector.

Cyfranogaeth

- Ehangu Cyfranogaeth Cymru, y bartneriaeth traws-sector sy'n cael ei rhedeg gan WCVA ac a sefydlwyd i hybu arferion da ym maes cyfranogi ac ymgysylltu â dinasyddion.
- Cyhoeddi 6 o gylchlythyrau sy'n ymgysylltu â dinasyddion a chreu gwefan newydd yn benodol ar gyfer Cyfranogaeth Cymru, sef www.participationcymru.org.uk.
- Trefnu 23 o gyrsiau hyfforddi i ddatblygu sgiliau ym maes ymgysylltu â dinasyddion.
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y prosiect Cynnwys Pobl.
- Trefnu'r gynhadledd gyntaf yng Nghymru ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau camdefnyddio sylweddau, gan ddenu 180 o gyfranogion.



Leighton Andrews AM, (then) Minister for Children, Education and Lifelong Learning, at WCVA's *Promoting Economic Participation* conference in February 2010.

Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (gynt) yng nghynhadledd WCVA ar *Hyrwyddo Cyfranogaeth Economaidd* ym mis Chwefror 2010.



Another project which received funding from the Communities First Trust Fund was the Multi-Cultural Development Consultancy. It staged an event at the Wales Millennium Centre to celebrate the Chinese New Year with the aim of highlighting the value of Chinese culture and customs and to promote diversity to family-based audiences.

Prosiect arall a dderbyniodd arian oddi wrth Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf oedd yr Ymgynghoriaeth Datblygu Aml-Ddiwylliannol. Cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd gyda'r bwriad o amlygu gwerth diwylliant ac arferion Tseina i hyrwyddo amrywiaeth i gynulleidfaeodd teuluol.



Service delivery

- Providing web-based information about tendering and public services
- Maintaining a database of third sector service providers
- Providing a new 'How to Tender' two day course, provided on nine occasions attracting 130 participants
- Introducing tendering master-classes on Structuring and Writing Competitive Tenders, and Competitive Tender Presentations

Regeneration

- Responding to over 3,200 enquiries
- Providing 134 days training for Communities First partnerships
- Providing 265 days consultancy advice and support to Communities First partnerships
- Providing over 1,000 grants totalling nearly £3m from the Communities First Trust Fund
- Securing Assembly Government support for a new £6m loans fund

A recent survey of Communities First Trust Fund recipients demonstrates the value of an easy to access fund, administered by WCVA.

- 97.7% of groups that accessed a CFTF grant said the grant helped them play a considerably more active role in their communities
- 'I now spend most of my free time involved in activities and volunteering in the community.'
- 96.5% of groups said their CFTF grant has allowed their organisation to progress
- 'Honestly, the grant has helped so many grassroots level people in so many ways.'
- 94% of groups said their CFTF grant resulted in their organisation attracting more volunteers
- 'Without the CFTF, the services and the help provided by volunteers to the disadvantaged children of the area would be massively hit.'
- 97.7% of CFTF applicants were either very satisfied or satisfied with WCVA's administration and organisation of the CFTF

'At WCVA level I find the administration and support excellent.'

Darparu gwasanaethau

- Darparu gwybodaeth ynglŷn â thendro a gwasanaethau cyhoeddus ar y we.
- Cadw cronfa ddata o ddarparwyr gwasanaethau'r trydydd sector
- Darparu cwrs deuddydd newydd o'r enw "Sut i Dendro" ar naw achlysur, gan ddenu 130 o gyfranogion.
- Cyflwyno dosbarthiadau meistr ar Lunio ac Ysgrifennu Tendrau Cystadleuol a Chyflwyniadau ar Dendro Cystadleuol.

Adfywio

- Ymateb i dros 3,200 o ymholiadau
- Darparu 134 diwrnod o hyfforddiant i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
- Darparu 265 diwrnod o gefnogaeth a chyngor ymgynghorol i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
- Darparu dros 1,000 o grantiau gwerth bron i £3 miliwn o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Sicrhau cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i gronfa fenthyciadau newydd gwerth £6m

Mae arolwg diweddar o'r rhai sy'n derbyn grantiau gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf (CYCG) yn dangos gwerth cronfa sy'n hawdd cael mynediad ati a weinyddir gan WCVA.

- dywedodd 97.7% o grwpiau oedd wedi cael grant CYCG fod y grant wedi eu helpu i chwarae rôl sylweddol fwy gweithgar yn eu cymunedau
- 'Erbyn hyn, rydw i'n treulio'r rhan fwyaf o f'amser rhydd yn gwirfoddoli neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned.'
- dywedodd 96.5% o grwpiau bod y grant a gawsant gan CYCG wedi caniatáu i'w mudiad ddatblygu
- 'Wir i chi, mae'r grant wedi helpu gymaint o bobl ar lawr gwlad mewn cymaint o ffyrdd.'
- dywedodd 94% o grwpiau bod eu mudiad wedi denu mwy o wirfoddolwyr yn sgil y grant a gawsant gan CYCG
- 'Byddai bod heb grant CYCG yn effeithio'n aruthrol ar y gwasanaethau a'r cymorth mae gwirfoddolwyr yn ei roi i blant difreintiedig yr ardal.'
- roedd 97.7% o'r rhai a wnaeth gais am grant gan CYCG naill ai'n fodlon iawn neu'n fodlon ar y ffordd yr oedd WCVA yn gweinyddu ac yn trefnu CYCG
- 'Mae'r gefnogaeth a'r gwasanaeth gweinyddol rydw i'n eu cael gan WCVA yn ardderchog.'

The Communities First Trust Fund has been awarding small grants to community projects in Wales' most economically deprived areas since it was launched in 2002. During 2009-10 it awarded 1,059 grants totalling £2,921,153.

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn rhoi grantiau bach i brosiectau cymunedol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru o safbwynt economaidd ers ei lansio yn 2002. Yn ystod 2009-10, rhoddodd 1,059 o grantiau oedd werth £2,921,153 i gyd gyda'i gilydd.

Communication 'dead spot' overcome by Communities First Trust Fund grant

A rural Welsh community left without mobile phone coverage has developed ambitious plans to purchase its own cellular masts and run a sustainable project, thanks to funding from the Communities First Trust Fund.

The Ger-y-Gors Community Forum in Tregaron has been awarded funding from the Trust Fund to commission a survey of the area in order to obtain planning permission for the masts and to set itself up as a limited company to manage the project.

The funding is part of the process that will allow the group to secure a second grant of £150,000 from the Assembly's Rural Development Plan to develop and run the new facility as a sustainable ongoing project.

Duncan Taylor, Chair of the Forum said: 'This is an important social economic project that will be of immense benefit to the residents and for creating opportunities for people to work from home and create business start-ups.'

Datrys problemau cyfathrebu drwy dderbyn grant Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Mae cymuned cefn gwlad yng Nghymru sydd ddim yn gallu derbyn gwasanaeth ffonau symudol wedi datblygu cynlluniau uchelgeisiol i brynu ei mastiau ei hun a rhedeg prosiect cynaliadwy, diolch i gyllid gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Mae Fforwm Cymuned Ger-y-Gors yn Nhregaron wedi cael cyllid gan y Gronfa Ymddiriedolaeth i gomisiynu arolwg o'r ardal er mwyn cael caniatâd cynllunio i godi'r mastiau ac i sefydlu ei hun fel cwmni cyfyngedig i reoli'r prosiect.

Mae'r cyllid yn rhan o'r broses a fydd yn caniatáu i'r grŵp sicrhau ail grant gwerth £150,000 gan Gynllun Datblygu Gwledig y Cynulliad, i ddatblygu ac i redeg y cyfleuster newydd fel prosiect parhaus cynaliadwy.


Meddai Duncan Taylor, Cadeirydd y Fforwm: 'Mae hwn yn brosiect economaidd-gymdeithasol a fydd yn dod â budd enfawr i'r trigolion ac a fydd yn creu cyfleoedd i bobl weithio o gartref a chychwyn busnesau.'


The Communities First Trust Fund awarded Rivers to the Sea, Harbour to the World, a grant to run a multi-media project with young people in Ceredigion. The project gave the participants the opportunity to learn new skills while learning more about the history of Aberystwyth Harbour.

Dyfarwyd grant gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau Yn Gyntaf i Rivers to the Sea, Harbour to the World er mwyn cynnal prosiect aml-gyfryngol yng Ngheredigion. Roedd y prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd tra'n dysgu mwy am hanes Porthladd Aberystwyth.

Photo courtesy of James Davies Photography

Llun yn garedig gan James Davies Photography





Moyna Wilkinson, Monmouthshire County Council Director of Social Services, at the *Achieving change with the third sector: better social care* conference in February 2010.

Moyna Wilkinson, Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy yng nghynhadledd *Sicrhau newid gyda'r trydydd sector: gwelw gofal cymdeithasol ym mis Chwefror 2010*.

Partnership

- Facilitating the sector's engagement with the Welsh Assembly Government through the Voluntary Sector Scheme, Partnership Council and Ministerial meetings.
- Ensuring that the sector has representation on major Assembly Government partnerships and working groups.
- Facilitating third sector networks concerned with equalities and human rights, substance misuse, community justice, and health, social care and well-being.
- Promoting good practice in working arrangements between the sector and local authorities, and monitoring the effectiveness of local compacts.
- Promoting partnerships between new local health boards and the third sector.

Partneriaeth

- Hwyluso ymgysylltiad y sector â Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy Gynllun y Sector Gwirfoddol, y Cyngor Partneriaeth a thrwy gyfrwng cyfarfodydd â Gweinidogion.
- Sicrhau bod y sector yn cael ei gynrychioli ym mhrif bartneriaethau a gweithgorau Llywodraeth y Cynulliad.
- Hyrwyddo rhwydweithiau trydydd sector sy'n ymwneud â chydarddoldeb a hawliau dynol, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder cymunedol, ac iechyd, gofal cymdeithasol a lles.
- Hybu arferion da mewn trefniadau gweithio rhwng y sector ac awdurdodau lleol, a monitro effeithiolrwydd compactau lleol.
- Hybu partneriaethau rhwng y byrddau iechyd lleol newydd a'r trydydd sector.

Scrutiny and campaigning

- Developing the Voices for Change Cymru project, supported by the Big Lottery Fund, to help the sector influence policy and legislation at local and national levels.
- Providing 31 training courses and 9 additional workshops/events across Wales.
- Providing advice to 32 groups on legislation and scrutiny.
- Providing a dedicated website (www.voicesforchangecymru.org.uk), helping people to understand how local and national decision making processes work, attracting over 5,300 visits.

Craffu ac ymgyrchu

- Datblygu prosiect Lleisiau dros Newid Cymru, a gefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr, er mwyn cynorthwyo'r sector i ddylanwadu ar bolisiau a deddfwriaeth yn lleol ac yn genedlaethol.
- Darparu 31 o gyrsiau hyfforddi a 9 gweithdy/digwyddiad ychwanegol ledled Cymru.
- Rhoi cyngor ar faterion deddfwriaethol a chraffu i 32 o grwpiau.
- Creu gwefan wrpasol (www.voicesforchangecymru.org.uk) i helpu pobl i ddeall sut mae prosesau gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol yn gweithio, gan ddenu dros 5,300 o ymweliadau â'r wefan.



3 Achieve positive outcomes for the sector in major policy areas

Sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y sector mewn meysydd polisi pwysig

WCVA has worked to increase the third sector's involvement in developing policies, and to help the sector to deliver benefits to people and communities in Wales. Achievements include:

- Investing over £2m European funding through the Engagement Gateway project in over 30 contracts, mostly in the third sector, involving and benefiting economically inactive people.

Mae WCVA wedi bod yn ymdrechu i gryfhau ymwneud y trydydd sector â llunio polisiau, ac i helpu'r sector ddod â budd i bobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'r cyflawniadau'n cynnwys:

- Buddsoddi dros £2m o arian Ewropeaidd drwy'r prosiect Porth Ymgysylltu mewn dros 30 o gontractau, yn y trydydd sector yn bennaf, oedd yn cynnwys ac yn dod â budd i bobl economaidd anweithgar.



Gateway to skills, training and employment

Funding from WCVA's Engagement Gateway project is allowing over 300 organisations to provide skills and pathways to employment, education or training to around 30,000 people who are economically inactive across the whole of Wales.

Sarah Raven, 24, from Llanelli is a participant on a Gateway project at Mess up the Mess Theatre company in Carmarthenshire – a not-for-profit organisation offering theatre making experiences to young people and new graduates.

Sarah told WCVA: 'Before the Theatre project I was really nervous and hated talking in big groups. I used to study IT which I didn't enjoy, and I tried to apply for receptionist jobs and was told I was too quiet

'Following on from this I'm taking drama at college, and in the future I would love to act in the theatre, but if not, hopefully if I apply to be a receptionist I'll get the job as no one can tell me I'm too quiet now!'

Porth i sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth

Diolch i arian gan brosiect Porth Ymgysylltu WCVA, gall dros 300 o fudiadau ddarparu sgiliau a llwybrau at waith, addysg neu hyfforddiant i oddeutu 30,000 o bobl sy'n economaidd anweithgar ar hyd a lled Cymru.

Mae Sarah Raven, 24 oed, o Lanelli yn cymryd rhan yn un o brosiectau'r Porth, sef Cwmni Theatr Mess Up The Mess yn sir Gaerfyrddin – mudiad di-elw sy'n cynnig profiadau theatr i bobl ifanc a graddedigion newydd.

Dywedodd Sarah wrth WCVA: 'Cyn y prosiect Theatr roeddwn i'n wirioneddol nerfus ac yn casáu siarad mewn grwpiau mawr. Roeddwn i'n arfer astudio TG, rhywbeth nad oeddwn i'n ei fwynhau ac mi driais i am swydd fel derbynnydd ond mi roedden nhw'n dweud wrtha i fy mod i'n rhy dawel.

'Yn sgil hyn, rydw i'n astudio drama yn y coleg, ac mi fyddwn i wrth fy modd cael actio yn y theatr yn y dyfodol, ond, os na, wy'n gobeithio, pe bawn i'n gwneud cais am swydd fel derbynnydd, mi fyddwn i'n ei chael hi achos all neb ddweud wrtha i fy mod i'n rhy dawel nawr!'

'I have learnt acting skills, singing, working with others and communication skills during the project. My confidence was around 3 out of 10 before this project and now it is at least 7.5.'

Sarah Raven, a participant of a Gateway project in Carmarthenshire

'Rydw i wedi dysgu sgiliau actio, canu, gweithio gyda phobl eraill a chyfathrebu yn ystod y prosiect. Cyn y prosiect, roedd lefel fy hyder tua 3 allan o 10 ond nawr mae o'n 7.5 o leiaf.'

Sarah Raven, un o gyfranogwyr prosiect y Porth yn sir Gaerfyrddin.

The Future Jobs Fund got off to a flying start in North Wales as Graham Benfield and Jan Bish, former PA to Graham Benfield, who retired this year, found out. The Coastal Hawks Project was set up to try to reduce the number of seagull attacks on shoppers eating food in Rhyl town centre. The project allowed two young men to receive training at the Mid Wales Falconry Centre near Welshpool.

Cafwyd dechrau da i Gronfa Swyddi'r Dyfodol yng Ngogledd Cymru fel bu i Graham Benfield a Jan Bish, cyn Gynorthwy-ydd Personol i Graham Benfield, a wnaeth ymddeol eleni, ddarganfod. Sefydlwyd y Prosiect Coastal Hawks er mwyn ceisio atal gwylanod rhag tarfu ar siopwyr sy'n bwyta bwyd yng nghanol tref y Rhyl. Roedd y prosiect wedi galluogi dau ŵr ifanc i dderbyn hyfforddiant yng nghanolfan Mid Wales Falconry ger y Trallwng.



- Establishing a new Intermediate Labour market project in North and East Wales, to provide employment, training and support for economically inactive people.

- Sefydlu prosiect Marchnad Lafur Drosiannol newydd yng ngogledd ac yn nwyrain Cymru er mwyn rhoi gwaith, hyfforddiant a chefnogaeth i bobl economaidd anweithgar.

ILM helps create jobs and employment opportunities

WCVA's Intermediate Labour Market (ILM) project is providing training and work experience for 3,000 economically inactive people in North and East Wales which will result in permanent job outcomes for over half of the people taking part.

Michael Otton, 52, from Colwyn Bay, was long-term out of work when he was put forward for Conwy Furniture Reclaim's ILM project. The furniture recycling enterprise is operated by Scout Enterprises, a not-for-profit organisation set up to help out-of-work people back into training and employment.

After a four month supported employment placement, Michael was taken on at the enterprise. He told WCVA: 'Before I started on the ILM project, I needed my self-respect built back up as I had really reached rock-bottom.'

- Finalising proposals for a new £6m Community Investment Fund to provide loan and grants, including securing £1m Assembly Government funding to contribute to an Invest to Serve programme within the new fund for organisations seeking to deliver public services.

MLD yn creu swyddi a chfleoedd gwaith

Mae prosiect Marchnad Lafur Drosiannol (MLD) WCVA yn darparu hyfforddiant a phrofiad gwaith i 3,000 o bobl economaidd anweithgar yng ngogledd ac yn nwyrain Cymru a fydd yn arwain at swydd barhaol i dros hanner y bobl sy'n cymryd rhan yn y prosiect.

Roedd Michael Otton, 52 oed, o Fae Colwyn, wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir pan gafodd ei enwebu ar gyfer prosiect MLD Adfer Dodrefn Conwy. Scout Enterprises sy'n rhedeg y fenter ailgylchu dodrefn, mudiad di-elw a sefydlwyd i helpu pobl yn ôl i hyfforddiant neu i gyflogaeth.

Ar ôl pedwar mis o leoliad cyflogaeth gyda chefnogaeth, cafodd Michael waith gyda'r fenter. Dywedodd wrth WCVA: 'Cyn imi ddechrau yn y prosiect MLD, roedd arnaf angen meithrin hunan-barch unwaith eto oherwydd roeddwn i wedi cyrraedd y gwaelod go iawn.'

- Llunio cynigion terfynol ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Gymunedol newydd gwerth £6m er mwyn darparu benthyciadau a grantiau, gan gynnwys sicrhau cyllid gwerth £1m gan Lywodraeth y Cynulliad fel cyfraniad at raglen Buddsoddi i Wasanaethu yn y gronfa newydd ar gyfer mudiadau sydd am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.



'This opportunity has given me back my confidence and a feeling of worth. It has been a marvellous experience and has put my life back on track.'

'Mae'r cyfle hwn wedi rhoi ymdeimlad o hunanwerth mi ac wedi rhoi fy hyder yn ôl i mi. Mae wedi bod yn brofiad gwych ac rwyf wedi cael trefn yn ôl ar fy mywyd.'



1

- Establishing a third sector Future Jobs consortium, creating jobs in voluntary organisations for 300 young people.



2

- Sefydlu consortiwm Swyddi'r Dyfodol ar gyfer y trydydd sector gan greu swyddi i 300 o bobl ifanc mewn mudiadau gwirfoddol.

Future Jobs Fund helps Ten Green Bottles achieve sustainable development

Ten Green Bottles are a Community Interest Company based in Powys, who create a range of high-quality glass giftware – including jewellery, dishes, candle holders and mirrors – from locally-sourced recycled bottles.

Formed in 2007 due to a lack of local recycling facilities, Ten Green Bottles – which benefits from the Future Jobs Fund, allowing them to offer work to unemployed young people – have created a real sense of community in their New Radnor base.

Lorraine Powers, of the group, said: 'Ten Green Bottles aim to become a template for sustainable enterprise that provides work opportunities for all. As well as acting as a recycling base and local tourist information point we are a training centre giving volunteer, training and employment opportunities to people of all ages and abilities.'

Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn helpu Ten Green Bottles i wireddu datblygu cynaliadwy

Cwmni Buddiannau Cymunedol wedi'i leoli ym Mhowys yw Ten Green Bottles. Maent yn creu amrywiaeth o anrhegion gwyrdr o ansawdd uchel - gan gynnwys gemwaith, llestri, canwyllbrennau a drychau – o boteli sydd wedi'u hailgylchu o ffynhonnell leol.

Wedi'i ffurfio yn 2007 oherwydd diffyg cyfleusterau ailgylchu yn lleol, mae Ten Green Bottles - sy'n cael budd o Gronfa Swyddi'r Dyfodol sy'n golygu eu bod yn gallu cynnig gwaith i bobl ifanc di-waith - wedi meithrin ymdeimlad gwirioneddol o gymuned ym Maesyfed.

Meddai Lorraine Powers, aelod o'r grŵp: 'Nod Ten Green Bottles yw bod yn batrwm ar gyfer mentrau cynaliadwy sy'n cynnig cyfleoedd am waith i bawb. Yn ogystal â gweithredu fel canolfan ailgylchu a chanolfan groeso leol, rydym hefyd yn ganolfan hyfforddi sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl o bob oed a gallu.'

1 Rosie Knight from Ten Green Bottles at the launch of 3to3.org.uk at the National Eisteddfod.

1 Rosie Knight o Ten Green Bottles yn lansiad 3i3.org.uk yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

2 Caia Park Partnership has created job opportunities for out-of-work people in Wrexham through WCVA's Future Jobs Fund contract and Intermediate Labour Market (ILM) project.

2 Mae Partneriaeth Caia Park wedi creu cyfleoedd swyddi i bobl di-waith yn Wrecsam trwy gcontract Cronfa Swyddi'r Dyfodol a phrosiect Marchnad Lafur Drosiannol WCVA.





Over 62 groups were supported by the pilot fund (Climate change grant).

Cefnogwyd dros 62 o grwpiau gan y gronfa beilot (y grant newid yn yr hinsawdd).

The National Trust was very pleased to have secured a Climate Change grant of £1,950 from Environment Wales which the Environmental Practices Manager Keith Jones used to produce this fantastic rowing machine for use at the Urdd Eisteddfod. The machine demonstrates how much power the users are producing. Over the week 1,200 young people generated electricity through their own efforts producing 3Kwh, enough to heat an oil filled radiator for an hour. The biggest total generation was a competitive dad who managed 374 watts all on his own. The rowing machine proved a great hit with young and old alike and showed people in a very tangible way how hard it is to generate electricity and how easy it is to waste it. The machine will now be used at other National Trust events around Wales.

Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrth eu bodd ar ôl clywed eu bod wedi sicrhau grant Newid yn yr Hinsawdd gwerth £1,950 gan Amgylchedd Cymru. Defnyddiwyd y grant gan Keith Jones, y Rheolwr Arferion Amgylcheddol, i adeiladu'r peiriant rhwyfo gwych hwn a oedd yn atyniad mawr yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'r peiriant yn dangos faint o bŵer sy'n cael ei gynhyrchu wrth rwyfo. Dros yr wythnos, cynhyrchodd 1,200 o bobl ifanc 3Kw/awr o drydan, digon i gynhesu rheiddiadur olew am awr. Tad cystadleuol iawn wnaeth gynhyrchu'r cyfanswm mwyaf o drydan – llwyddodd i gynhyrchu 374 wat ei hunan. Roedd y peiriant rhwyfo'n boblogaidd iawn ymysg pobl o bob oed ac roedd yn dangos iddynt mewn ffordd ymarferol pa mor anodd yw cynhyrchu trydan a pha mor rhwydd yw ei wastraffu. Y bwriad nawr yw defnyddio'r peiriant yn nigwyddiadau eraill yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ledled Cymru.

For every grant (average £3,800) distributed by Environment Wales in 2009-10:

- 41 volunteers were supported
- 26 weeks – or 1,040 hours – of environmental action were provided
- over £8,000 of additional funding was drawn in

Ar gyfer pob grant (£3,800 ar gyfartaledd) a ddyrannwyd gan Amgylchedd Cymru yn 2009-10:

- cefnogwyd 41 o wirfoddolwyr
- darparwyd 26 wythnos - neu 1,040 awr – o weithgareddau amgylcheddol
- sicrhawyd dros £8,000 o gyllid ychwanegol

- Establishing a third sector climate change leadership group to encourage third sector organisations to reduce their carbon footprint.
- Through Environment Wales, investing grant aid of over £610,000 in 160 environmental projects, involving over 6,600 volunteers, and providing development support to a further 100 volunteer-led projects.
- Supporting the involvement of equalities organisations and interest in the development of the Wales Spatial Plan.
- Working with the Assembly Government and health bodies to safeguard support for the third sector through local health board re-organisation.
- Contributing to and influencing new commissioning arrangements for social care.
- Piloting a new £90,000 grants programme through Environment Wales to support community responses to climate change.
- Sefydlu grŵp i arwain y trydydd sector ar newid yn yr hinsawdd er mwyn annog mudiadau yn y trydydd sector i leihau eu hól troed carbon.
- Drwy Amgylchedd Cymru, buddsoddi gwerth £610,000 o grantiau mewn 160 o brosiectau amgylcheddol, a'r rheiny'n cynnwys dros 6,600 o wirfoddolwyr, a darparu cefnogaeth datblygu i 100 o brosiectau eraill a arweinir gan wirfoddolwyr.
- Cefnogi cysylltiad mudiadau cydraddoldeb a diddordeb yn natblygiad Cynllun Gofodol Cymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a chyrrff iechyd i ddiogelu cefnogaeth i'r trydydd sector drwy ad-drefnu byrddau iechyd lleol.
- Cyfrannu at drefniadau comisiynu newydd ym maes gofal cymdeithasol a dylanwadu ar y trefniadau hynny.
- Treialu rhaglen grantiau newydd gwerth £90,000 drwy Amgylchedd Cymru i gefnogi ymatebion cymunedol i newid yn yr hinsawdd.

Climate change grant helps Grassroots Cymru raise awareness of global issues.

Mae grant newid yn yr hinsawdd wedi helpu Grassroots Cymru i godi ymwybyddiaeth o faterion byd eang.



Denmark Farm Conservation Centre

At Denmark Farm, the Shared Earth Trust continues to carry out its long-term programme to restore and create wildlife habitats on what was once intensively farmed land.

Denmark Farm is one of the longest standing projects supported by Environment Wales and registered with the initiative in 1997.

Environment Wales has provided management grant funding for a Community Education Officer, and continues to assist the group with the evolution of the project. In 2009-10, the group received funding to launch a three-year 'Wildlife Where You Live' initiative, that will provide hands-on training to community groups and volunteers to demonstrate how easy it can be to upgrade their local environment.

Canolfan Gadwraeth Fferm Denmark

Yn Fferm Denmark, mae Ymddiriedolaeth Shared Earth yn parhau i gynnal ei rhaglen tymor hir i adfer a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt ar dir a arferai gael ei ffermio'n ddwys.

Fferm Denmark yw un o'r prosiectau a gefnogir gan Amgylchedd Cymru sydd wedi bod ar waith hiraf, gan gofrestru â'r fenter ym 1997.

Mae Amgylchedd Cymru wedi darparu grant rheoli ar gyfer Swyddog Addysg Cymunedol ac mae'n parhau i gynorthwyo'r grŵp â datblygu'r prosiect. Yn 2009-10, cafodd y grŵp gyllid i lansio menter tair blynedd o'r enw 'Bywyd Gwyllt yn Eich Ardal Chi' a fydd yn rhoi hyfforddiant ymarferol i grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr er mwyn dangos mor hawdd ydyw i uwchraddio eu hamgylchedd lleol.

First Minister for Wales, Carwyn Jones AM, with representatives from Wales and Africa at the Gold Star awards ceremony in the Senedd on St David's Day.

Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, gyda chynrychiolwyr o Gymru ac Affrica yn seremoni wobrwyo Seren Aur yn y Senedd ar Ddydd Gŵyl Dewi.



- Creating mutually beneficial links between communities in Wales and in sub-Saharan Africa.
- Developing a project to protect an area of rainforest the Size of Wales.
- Creu cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru ac yn Affrica Is-Sahara sy'n dod â budd i'r naill gymuned a'r llall.
- Datblygu prosiect i warchod ardal fforest law Maint Cymru.

Gold Star

Three Welsh and three African communities were honoured on St David's Day with the award of a United Nations Gold Star for their contribution towards making poverty history, building friendships and broadening horizons between Wales and Africa.

These communities are part of a growing network of over 100 links operating between Wales and Africa. The volunteer-run community partnerships - between Hay-on-Wye in Powys and Timbuktu in Mali, Llanfyllin in Montgomeryshire and Kamuli in Northern Uganda, and Pontypridd in Rhondda Cynon Taff and Mbale in Eastern Uganda - are supported by the Wales Africa Community Links project of WCVA, with funding from the Welsh Assembly Government's Wales for Africa scheme.

Size of Wales

The Size of Wales project was launched by HRH Prince Charles in September 2010 and aims to help sustain an area of tropical forest in Africa covering as many hectares as the whole of Wales.

Welsh organisations, companies and individuals will be asked to support forest projects and communities in Africa and forge long lasting links beneficial to both countries.

The scheme is being funded by the Waterloo Foundation, which gives grants to organisations in both the UK and world-wide, and runs a Forests Programme targeted at avoiding deforestation in tropical areas.

Seren Aur

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, cafodd tair cymuned yng Nghymru a thair cymuned yn Affrica eu hanrhydeddu â gwobr Seren Aur y Cenedloedd Unedig am eu cyfraniad i roi terfyn ar dlodi ac ehangu gorwelion a meithrin cyfeillgarwch rhwng Cymru ac Affrica.

Mae'r cymunedau hyn yn rhan o rwydwaith o dros 100 dolen sydd ar waith rhwng Cymru ac Affrica, ac mae'r rhwydwaith yn tyfu. Caiff y partneriaethau cymunedol hyn sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr - rhwng y Gelli Gandryll ym Mhowys a Timbuktu yn Mali, Llanfyllin yn Sir Drefaldwyn a Kamuli yng Ngogledd Uganda, a Phontypridd yn Rhondda Cynon Taf a Mbale yn Nwyrain Uganda - eu cefnogi gan brosiect Cysylltiadau Cymunedol Cymru-Affrica Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), gyda chyllid gan gynllun Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Maint Cymru

Lansiwyd y prosiect Maint Cymru gan Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Charles ym mis Medi 2010 gyda'r nod o gynnal ardal o fforest drofannol yn Affrica sydd gyfaint â Chymru.

Gofynnir i fudiadau, cwmnïau ac unigolion yng Nghymru gefnogi cymunedau a phrosiectau fforestydd yn Affrica a chreu cysylltiadau parhaol a fydd o fudd i'r naill wlad a'r llall.

Mae'r cynllun yn cael ei gyllido gan Sefydliad Waterloo, sy'n rhoi grantiau i fudiadau yn y DU ac ym mhob rhan o'r byd, ac sy'n rhedeg Rhaglen Fforestydd sydd â'r nod o osgoi datgoedwigo mewn ardaloedd trofannol.



4 Improve performance and ensure quality

Gwella perfformiad a sicrhau ansawdd

WCVA's Board and its sub-committees have continued to ensure that robust systems are in place to improve the charity's efficiency and effectiveness, and to address internal and external factors that could influence its effectiveness, including:

- Keeping long-term income projections under review and adopting funding strategies to secure resources to maintain its range of charitable activities.
- Operating to the standards underpinning its Investors in Excellence accreditation within the European Foundation for Quality Management (EFQM) model.
- Maintaining Green Dragon level II and Investors In People accreditation, and a comprehensive suite of policies, which are regularly reviewed.
- Continuing its staff development and training programme.
- Maintaining good and constructive relations with government, the Assembly and other public bodies at both trustee and senior staff levels.

Mae Bwrdd ac is-bwyllgorau WCVA wedi parhau i sicrhau bod systemau cadarn ar waith i wneud yr elusen yn fwy effeithlon ac effeithiol, ac i roi sylw i ffactorau mewnol ac allanol a allai ddylanwadu ar ei effeithlonrwydd, gan gynnwys:

- Parhau i adolygu rhagamcanion incwm tymor hir a mabwysiadu strategaethau cyllido er mwyn sicrhau adnoddau i gynnal ei amrywiaeth o weithgareddau elusennol.
- Gweithredu yn unol â'r safonau sy'n sail i'w achrediad Buddsoddwyr mewn Rhagoriaeth o fewn model y Sefydliad Ewropeaidd dros Reoli Ansawdd.
- Dal gafael yn Safon y Ddraig Werdd lefel II ac yn yr achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, a phhecyn cynhwysfawr o bolisiau, sy'n cael eu hadolygu'n gyson.
- Parhau â'i raglen hyfforddi a datblygu staff.
- Cynnal cysylltiadau da ac adeiladol gyda'r llywodraeth, y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill ar lefel ymddiriedolwyr a staff uwch.



The Network Wales Awards, supported by Class Telecommunications, rewards organisational excellence in the third sector. The Welsh Refugee Council won an award in the Best Communications category in 2009.

Mae Gwobrau Rhwydwaith Cymru, a gefnogir gan Class Telecommunications, yn gwobrwyo rhagoriaeth yn y trydydd sector. Gwnaeth Cyngor Ffoaduriaid Cymru ennill gwobr yn y category cyfathrebu gorau yn 2009.



In July 2010 WCVA won learndirect's small/medium company award, in recognition of our engagement with the European Computer Driving Licence (ECDL) qualification. More than 25 staff passed their exams after committing time to working through this on-line learning programme. The award was presented to WCVA training staff by comedian Chris Corcoran at a ceremony at the Pierhead Building in Cardiff Bay.

Ym mis Gorffennaf 2010 enillodd WCVA wobwr cwmni bach/canolig learndirect fel cydnabyddiaeth o'n hymgysylltiad â'r cymhwyster Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (ECDL). Bu dros 25 o staff yn llwyddiannus yn eu harholiadau ar ôl rhoi o'u hamser i weithio drwy'r rhaglen dysgu ar-lein hon. Cyflwynodd y digrifwr Chris Corcoran y wobwr i staff hyfforddi WCVA mewn seremoni yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd.

WCVA's Training Administrator Linda Phillips with Dave Mathers from learndirect. Linda Phillips, Gweinyddwraig Hyfforddiant WCVA gyda Dave Mathers o learndirect.

5 Grants and funding

Grantiau a chyllid

The charity administered 17 (2009: 26) grant schemes during the year and grant payments were made to 1,785 (2009: 1,975) organisations.

Gweinyddodd yr elusen 17 (2009: 26) cynllun grant yn ystod y flwyddyn a gwnaethpwyd taliadau grant i 1,785 (2009: 1,975) o fudiadau.

Grants Grantiau	2010		2009	
	Number of Grants Paid Nifer y Grantiau a Dalwyd	Value of Grants Paid Gwerth y Grantiau a Dalwyd £	Number of Grants Paid Nifer y Grantiau a Dalwyd	Value of Grants Paid Gwerth y Grantiau a Dalwyd £
Active Community Cymdeithas Fyw	25	942,926	29	943,327
Russell - Youth Led Russell – Dan Arweiniad Pobl Ifanc	17	85,000	4	35,000
Russell - Youth Volunteering Russell – Gwirfoddoli Ymhlith Pobl Ifanc	40	219,857	50	237,664
Russell - International Youth Volunteering Russell – Gwirfoddoli Ymhlith Pobl Ifanc yn Rhyngwladol	-	-	2	77,885
Communities First Cymunedau yn Gyntaf	1,054	2,767,672	1,194	3,098,220
Communities First - Music Cymunedau yn Gyntaf – Cerddoriaeth Gwraidd	-	-	16	31,652
	-	(7,517)	-	(7,836)
Community Investment Buddsoddiad Cymunedol	-	-	21	248,065
Local Regeneration Adfywio Lleol	-	(24,037)	-	-
Local Volunteering Services Gwasanaethau Gwirfoddoli Lleol	19	2,988,982	19	2,840,958
Mental Health Iechyd Meddwl	146	3,778,503	89	2,240,272
Millennium Volunteers Gwirfoddolwyr y Mileniwm	48	198,018	60	407,610
Millennium Volunteers - Russell Gwirfoddolwyr y Mileniwm – Russell	-	-	19	318,405
Sustainable Funding Cyllid Cynaliadwy	-	-	14	5,068
Goldstar Seren Aur	32	49,741	14	40,000
Volunteering in Wales Fund Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru	54	643,093	60	603,018
Environment Wales Amgylchedd Cymru	151	868,377	135	867,973
Building Strong Bridges Codi Pontydd Cadarn	-	-	1	11,748
Strategic Recycling - ERDF Ailgylchu Strategol – ERDF	2	40,170	7	1,865,591
Strategic Recycling - ESF Ailgylchu Strategol – ESF	-	-	7	996,390
Strategic Recycling - non Objective 1 Ailgylchu Strategol – heb fod yn Amcan 1	-	-	1	272,105
Advice Training Network Rhwydwaith Hyfforddiant Cyngori	13	192,838	17	636,013
Volunteering Enhancement Initiative Cynllun Cryfhau Gwirfoddoli GwirVol	38	1,604,764	19	1,299,195
	56	312,383	-	-
Partnership Council Y Cyngor Partneriaeth	27	122,160	29	156,454
Social Risk - Objective 1 Risg Gymdeithasol – Amcan 1	-	(330)	134	377,666
Local Voluntary Action Capacity Building Meithrin Galluoedd – Gweithredu Gwirfoddol Lleol	-	-	11	179,936
Voluntary Sector Capacity Building Meithrin Galluoedd y Sector Gwirfoddol	-	-	9	110,016
Social Risk - Objective 3 Risg Gymdeithasol – Amcan 3	-	-	14	42,451
Age of Stupid Oes y Dwl	44	10,256	-	-
Volunteering Gwirfoddoli	19	44,000	-	-
	1,785	14,836,856	1,975	17,934,846

6 Plans for future periods

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

WCVA will continue to work to the principal objectives set out on page 4.

Priorities will include: Services

Working in partnership with county voluntary councils, volunteer centres and specialist national bodies, ensuring that the sector has access to high quality services that help trustees, staff and volunteers work effectively and deal with change and challenge in their work. Through our websites, advice services, information resources, helpline, publications, training, events and conferences, grants and loans, we will deliver services relating to:

- General advice and support
- Volunteering
- Trustees and governance
- Funding
- New initiatives and community development

Achieving change

We have identified six major areas where we aim to achieve change over the next five years, namely:

- **Economic participation:** helping the sector to play its full part in tackling unemployment and economic inactivity.
- **Climate change:** providing leadership and encouraging third sector organisations to take practical action to tackle both the causes and consequences of climate change.
- **Skills:** securing recognition from Government and its agencies that the sector workforce of 46,000 staff and 1.83m volunteers is an industry entitled to sector skills support.
- **Resources:** helping to achieve a well resourced sector where access to finance

Bydd WCVA yn parhau i ddilyn y prif amcanion a amlinellir ar dudalen 4.

Bydd y blaenoriaethau'n cynnwys: Gwasanaethau

Gweithio mewn partneriaeth â chynghorau gwirfoddol sirol, canolfannau gwirfoddoli, a chyrrff cenedlaethol arbenigol, i sicrhau bod y sector yn cael mynediad at wasanaethau o safon uchel sy'n helpu ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr i weithio'n effeithiol a delio â newid a her yn eu gwaith. Drwy ein gwefannau a'n gwasanaethau cynghori, ein hadnoddau gwybodaeth a'n lein gymorth, ein cyhoeddiadau a'n hyfforddiant, ein digwyddiadau a'n cynadleddau, a'n grantiau a'n benthyciadau, byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â:

- Cyngor a chefnogaeth cyffredinol
- Gwirfoddoli
- Ymddiriedolwyr a llywodraethu
- Cyllid
- Mentrau newydd a datblygu cymunedol

Sicrhau newid

Yr ydym wedi pennu chwe maes pwysig yr ydym yn bwriadu sicrhau newid ynddynt yn y pum mlynedd nesaf, sef:

- **Cyfranogaeth economaidd:** helpu'r sector i chwarae rhan lawn yn y gwaith o fynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd.
- **Newid yn yr hinsawdd:** rhoi arweiniad ac annog mudiadau'r trydydd sector i gymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi newid yn yr hinsawdd a chanlyniadau hynny.
- **Sgiliau:** sicrhau bod y Llywodraeth a'i asiantaethau'n cydnabod bod gweithlu'r sector, sy'n cynnwys 46,000 o staff ac 1.83m o wirfoddolwyr yn ddiwydiant sydd â'r hawl i gael cefnogaeth yng nghyswllt sgiliau.



Increasing the number of volunteers will remain a key priority for WCVA, as illustrated:

The Sea Trust South and West Wales project looks at the study of porpoises, dolphins, and other sea life found around Strumble Head in Pembrokeshire.

Environment Wales awarded a management grant to the Sea Trust South and West Wales in 2010, for a Volunteer and Events Coordinator to support the hundreds of individuals wishing to engage or work with this project.

Bydd cynyddu'r niferoedd o wirfoddolwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i WCVA, fel y dangosir:

Mae prosiect Ymddiriedolaeth y Môr De a Gorllewin Cymru yn astudio llamhidyddion, dolffiniaid, a chreaduriaid eraill y môr sydd i'w gweld o amgylch Pen Strwmbly yn Sir Benfro.

Rhoddodd Amgylchedd Cymru grant rheoli i Ymddiriedolaeth y Môr De a Gorllewin Cymru yn 2010 ar gyfer Cydlynnydd Digwyddiadau a Gwirfoddolwyr i gefnogi'r cannoedd o unigolion oedd yn dymuno gweithio ar y prosiect hwn neu oedd am gymryd rhan ynddo.

and other resources is maximized and diversified, and decision making is fair.

- **Policy and public services:** promoting the role the sector can play in participation, commissioning, delivering and scrutinising public services, particularly through co-design and co-delivery.
- **Volunteering:** increasing the number and diversity of people volunteering in ways which benefit the individual, organisation and the community.

Helping the sector work effectively with government and the legislature

We will facilitate and support the relationship between the sector and government through:

- The Assembly Government Third Sector Scheme, including the Third Sector Partnership Council and Ministerial meetings
- Assisting organisations to work with, and influence, the National Assembly legislature, and to respond to the outcome of the referendum in 2011 on increasing the Assembly's powers
- Representing the sector's interests on non-devolved government issues
- Monitoring relationships between the sector and local government, and health and other bodies

Improving our performance

We will continue to monitor and seek improvements in our performance to ensure that our governance is effective, we are complying with the requirements and expectations of external regulators and funders, and we are maintaining high standards in managing our staff, facilities and resources.

- **Adnoddau:** helpu i sicrhau sector sydd â digon o adnoddau lle ceir gymaint â phosibl o ffynonellau cyllido ac adnoddau eraill, a rheiny'n rhai amrywiol, a lle y gwneir penderfyniadau teg.
- **Polisi a gwasanaethau cyhoeddus:** hyrwyddo'r rôl y gall y sector ei chwarae yng nghyswllt comisiynu, cyflwyno a chraffu ar wasanaethau cyhoeddus, a chyfranogi ynddynt, yn enwedig drwy gyd-dylunio a chyd-ddarparu.
- **Gwirfoddoli:** cynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n gwirfoddoli mewn ffyrdd sy'n dod â budd i'r unigolyn, i'r mudiad ac i'r gymuned.

